

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

Answers to Questions not reached in Plenary

11/03/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Education Priorities

Blaenoriaethau ar gyfer Addysg

Q5 Lynne Neagle: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's education priorities for Torfaen? OAQ(3)0826(FM)

C5 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg yn Nhoraen? OAQ(3)0826(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): My priorities for education in Wales are outlined in 'One Wales'. Torfaen will benefit from many of these initiatives. We will ensure that learners of all ages have access to high-quality provision and are supported, with practitioners delivering a diverse curriculum, and the skills, knowledge and research that Wales needs.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Amlinellir fy mlaenoriaethau i ar gyfer addysg yng Nghymru yn 'Cymru'n Un'. Bydd Torfaen yn manteisio ar nifer o'r mentrau hyn. Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr o bob oed yn gallu manteisio ar ddarpariaeth o safon uchel a'u bod yn cael eu cefnogi, gyda darparwyr yn cyflwyno cwricwlwm amrywiol, y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymchwil sydd eu hangen ar Gymru.

Agency Workers

Gweithwyr Asiantaeth

Q6 Huw Lewis: Will the First Minister make a statement on the skills training available for agency workers in Wales? OAQ(3)0827(FM)

C6 Huw Lewis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyfforddiant sgiliau sydd ar gael ar gyfer gweithwyr asiantaeth yng Nghymru? OAQ(3)0827(FM)

The First Minister: Someone who has left school and who is ordinarily resident in Wales, or whose employment or work placement is located in Wales, is usually eligible for our work-based learning programmes. As such, agency workers can participate in pre-apprenticeship learning, modern apprenticeships, foundation modern

Y Prif Weinidog: Mae rhywun sydd wedi gadael ysgol ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, neu sy'n gweithio neu ar leoliad gwaith yng Nghymru, hefyd yn gymwys ar gyfer ein rhagleni dysgu seiliedig ar waith. Yn yr un modd, gall gweithwyr asiantaeth gymryd rhan mewn dysgu cyn prentisiaeth, prentisiaethau modern, prentisiaethau modern

apprenticeships and the modern skills sylfaenol a'r diploma sgiliau modern. diploma.

*Atebwyd cwestiynau 7 i 13 yn y Cyfarfod Llawn, a thynnwyd cwestiwn 14 yn ôl.
Questions 7 to 13 answered in Plenary, and question 14 was withdrawn.*

Modern Foreign Languages

Q15 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on the provision of modern foreign language teaching? OAQ(3)0810(FM)

The First Minister: Secondary schools are required to provide a modern foreign language for 11-14 year olds. In addition, as set out in “Languages Count” the Assembly Government is committed to improving opportunities for the study of foreign languages both in primary schools and beyond the age of 14.

Ieithoedd Tramor Modern

C15 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth dysgu ieithoedd tramor modern? OAQ(3)0810(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gofyniad ar ysgolion uwchradd i ddarparu iaith fodern i ddisgyblion rhwng 11 a 14 oed. Yn ogystal â hyn, fel y dynodir yn “Ieithoedd sy'n Cyfrif”, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella cyfleoedd ar gyfer astudio ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd a thu hwnt i 14 oed.